# Materion Ariannol

Mae’n bosib y gwelwch fod eich sefyllfa ariannol wedi newid o ganlyniad i fod mewn rôl gofalu. Fel gofalwr, efallai y byddwch yn canfod fod gennych lai o arian yn dod i mewn, a mwy o arian yn mynd allan ar bethau megis biliau gwresogi, offer, cludiant. Mae nifer o ofalwyr yn canfod bod ganddynt broblem gyda dyled, ond mae sefydliadau ar gael sy’n gallu rhoi cefnogaeth, gwybodaeth a chyngor arbenigol i’ch helpu i ddelio â materion ariannol.

Pwy bynnag ydych chi, a pha bynnag ofal rydych yn ei ddarparu, mae’n bwysig eich bod yn cael y cymorth ariannol rydych ei angen, ac y mae gennych hawl iddo. Mae nifer o ofalwyr sydd â’r hawl i hawlio budd-daliadau a lwfansau – iddynt hwy eu hunain neu i’r person maent yn gofalu amdano – yn methu â gwneud hynny oherwydd bod y broses yn ymddangos yn rhy gymhleth, neu yn teimlo fel petaent yn gofyn am gardod.

Cofiwch:

- Mae’n bosib fod gennych chi, neu’r person rydych yn gofalu amdano, hawl i geisio am gymorth ariannol – yn ddibynnol ar oedran, anghenion ac incwm – ac mae wastad yn werth gwirio i weld a oes budd-daliadau y gallwch eu cael.
- Gallwch un ai gysylltu â’r sefydliadau statudol yn uniongyrchol neu geisio cyngor gan sefydliad o’r trydydd sector e.e. Age Cymru neu Cyngor ar Bopeth (CAB). **Turn2us** yw elusen genedlaethol sy’n helpu pobl mewn caledi ariannol cael mynediad i fudd- daliadau lles, grantiau elusennol a gwasanaethau cefnogol – **0808 802 2000**
- Gall un budd-dal fod yn basbort i dderbyn un arall, a dylech ymgeisio am fudd-daliadau cyn gynted ag y gallwch – ni ellir ôl-dalu nifer ohonynt.
- Mae’n bosib y gallwch hefyd gael cymorth ariannol trwy grantiau a chronfeydd llesiannol i helpu i dalu am bethau na fydd cynlluniau eraill yn eu hariannu – gall sefydliad trydydd sector fel y Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr **(01248 370797)** eich helpu gyda hyn.
- Os caiff eich cais ei wrthod neu pe baech yn derbyn llai o fudd-dal na’r hyn y credwch y mae gennych hawl iddo, gallwch apelio yn erbyn y

penderfyniad – gall sefydliad megis CAB **(0808 27 87 922)** eich helpu gyda hyn.

.

Os ydych chi, neu'r person rydych yn gofalu amdano, yn derbyn neu'n yn mynd i dderbyn gwasanaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd, gallwch gysylltu â'r Uned Incwm a Lles **(01286 682691).** Maent yn cynnig gwasanaeth cynhwysfawr ar faterion hawliau lles, a gallant sicrhau eich bod yn hawlio'r budd-daliadau sy'n ddyledus i chi.

**Cymorth ariannol i ofalwyr:**

**Lwfans Gofalwyr** – dyma'r prif fudd-dal ar gyfer gofalwyr hŷn nag 16 mlwydd oed sydd ar incwm isel ac sy'n treulio 35 awr neu fwy bob wythnos yn gofalu am rywun sy'n derbyn budd-daliadau anabledd penodol. Cysylltwch â'r Uned Lwfans Gofalwyr – **0800 731 0297**

**Credydau Gofalwyr** – credyd Yswiriant Gwladol sy'n gadael i ofalwyr gronni blynyddoedd cymwys ar gyfer y Pensiynau Gwlad sylfaenol ac ychwanegol. Mae'n bosib y byddwch yn gallu cael y Credyd Gofalwyr os ydych yn darparu gofal i un neu fwy o bobl anabl am gyfanswm o 20 awr neu fwy bob wythnos, ac nad ydych eisoes yn derbyn y Lwfans Gofalwyr.

**Cymorth ariannol i chi a/neu'r sawl rydych yn gofalu amdano:**

**Credyd Pensiwn –** mae hyn yn gwarantu lefel incwm penodol. Fel gofalwr mae'n bosib y byddech hefyd yn gymwys am Gredyd Pensiwn ychwanegol. Cysylltwch â'r Gwasanaeth Pensiwn – **0800 99 1234**

**Taliad Tanwydd y Gaeaf** – dyma daliad blynyddol tuag at wresogi yn y gaeaf i bobl dros 66 mlwydd oed neu bobl sydd ar incwm isel. Cysylltwch â'r Llinell Taliadau Tanwydd y Gaeaf – **0800 731 0160**

**Credyd Cynhwysol** – ar gyfer pobl rhwng 16 a 66 mlwydd oed, ar incwm isel, nad ydynt yn gweithio neu sy'n gweithio llai nag 16 awr yr wythnos. Cysylltwch â'r Llinell Gymorth Credyd Cynhwysol – **0800 012 1888** – neu ceisiwch ar-lein https://www.gov.uk/credyd-cymhywsol/sut-i-wneud-cais

**Budd-dal Tai** – yn cynorthwyo gyda thaliadau rhent os ydych ar incwm isel. Cysylltwch â'r Cyngor – ffoniwch **01286 682689** neu e-bostiwch budd-daliadau@gwynedd.llyw.cymru

**Gostyngiadau ac Ad-daliadau ar y Dreth Gyngor** – mae gostyngiadau ac ad-daliadau ar gael os ydych yn byw ar eich pen eich hun, ar incwm isel, neu os ydych yn edrych ar ôl rhywun sydd ag anabledd dysgu / salwch meddwl neu'n gofalu am rywun nad ydynt yn ŵr / gwraig / partner / plentyn i chi ac sy'n derbyn budd-daliadau. Mae posib cael gostyngiad o 50% ar y dreth Gyngor. Hefyd mae'n bosibl hawlio gostyngiad o un band prisio yn eich Treth Cyngor e.e. bydd eiddo Band C yn cael bil Band B, os yw'r eiddo wedi ei addasu tu mewn i rywun ag anabledd sylweddol a pharhaol sy'n byw yn yr eiddo e.e. ystafell ymolchi ychwanegol; mae'n rhaid bod yr addasiad yn hanfodol neu'n bwysig iawn i lesiant y person anabl.

Cysylltwch ag adran y Dreth Gyngor – **01286 682700** neu e-bostiwch TrethCyngor@gwynedd.llyw.cymru

**Benthyciad Trefnu** – nid oes modd cael benthyciad argyfwng bellach ond os oes angen i chi geisio am fenthyciad ar gyfer eitemau i'r tŷ neu gostau byw, ac yn derbyn Credyd Pensiwn neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA) yn seiliedig ar incwm, cysylltwch â **0800 169 0240.** Os ydych yn derbyn Credyd Cymhwysol, gallwch derbyn **Taliad Cyllidebu Ymlaen Llaw** – cysylltwch â'ch Canolfan Byd Gwaith lleol.

**Lwfans Gweini –** ar gyfer pobl dros 66 mlwydd oed sydd angen cymorth gyda gofal personol oherwydd anabledd. Telir hwn ar gyfraddau gwahanol, yn ddibynnol ar y gofal sydd ei angen. Cysylltwch â'r Adran Gwaith a Phensiynau – **0800 731 0122**

**Y Cynllun *Motability*** – mae hwn yn rhoi cymorth i lesu car, sgwter / cadair olwyn â motor i bobl sy'n derbyn budd-daliadau anabledd penodol. Ar gyfer y Cynllun Ceir, cysylltwch â *Motability Operations* – **0300 456 4566**

**Budd-dal Analluogrwydd/Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA)** – ar gyfer pobl rhwng 16 a 66 mlwydd oed nad ydynt yn gallu gweithio oherwydd anabledd neu gyflwr iechyd. Mae Budd-dal Analluogrwydd wedi cael ei ddisodli gan Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA). Cysylltwch â – **0800 328 1744 (opsiwn 3)**

**Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) –** hawliau newydd ond ar gyfer pobl plant sydd ag anableddau difrifol ac sydd angen cymorth gyda gofal personol a symudedd. Cysylltwch â'r Adran Gwaith a Phensiynau – **0800 121 4600**

**Taliad Annibyniaeth Bersonol (PIP)** – Mae dwy elfen i'r taliad, sef elfen y gofalwr ac elfen symudedd. Mae'r dau elfen yn cynnwys dau gategori. Cysylltwch â DWP - Ceisiadau PIP – **0800 917 2222 –** Holiadau – **0800 121 4433**

**Trwydded Deledu** – gall pobl sy'n ddall neu sydd â nam **difrifol** ar eu golwg dderbyn disgownt o 50% ar gost eu trwydded deledu. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â *TV Licensing* – **0300 790 6042**

**Cymorth Dŵr Cymru** – gallwch gael gostyngiad ar eich bil dŵr os ydych chi ar fudd-daliadau penodol (HelpU), neu os oes gennych gyflwr meddygol penodol (Water Sure Cymru) neu gael help os ydych chi ar incwm isel. Ewch i www.dwrcymru.com/cy-gb/support-with-bills am ragor o wybodaeth neu ffoniwch **0800 052 6058**

Os ydych yn byw yn blwyfi Gellilydan, Trawsfynydd, Bronaber, Maentwrog a Llanfestiniog, Talsarnau a Llandecwyn, efallai y gallwch gael grant hyd at £100 tuag gost gwres, gan **Yr Ymddiriedolaeth Goffa Guy Howland Jackson**. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r Ysgrifenyddes, Angela Swan, angelaswann@hotmail.com neu **01766 770686**

## Problemau gyda Dyledion?

Os oes gennych broblemau gyda dyledion, mae'n well trefnu modd i ddechrau ddelio gyda nhw cyn gynted ag y bo modd. Ni fyddant yn diflannu os ydych eu hanwybyddu ac mae'n bosib iawn bydd y sefyllfa'n gwaethygu. Mae yna nifer o asiantaethau a all gynnig i chi cyngor a chymorth sydd yn rhad ac am ddim.

**Cyngor Am Bopeth (CAB)** – yn cynnig cymorth gyda problemau dyled, yn ogystal â chyngor ariannol cyffredinol. Cysylltwch â nhw ar **0808 27 87 922** neu e-bostiwch admin@cabgwynedd.org.uk neu ewch ar eu prif wefan (Saesneg ei hiaith) lle mae'n modd cael cymorth personol am ddyledion trwy e-bost CAB debts and money

**Pay Plan** – yn amcanu helpu pobl i ddod yn rhydd o ddyledion gan ddarparu cyngor clir a gonest a datrysiadau i ddyled sydd yn gweithio. Does dim ots faint o ddyled sydd gennych neu beth yw'ch sefyllfa, bydd eu hymgynghorwyr

yn helpu. Mae ganddynt ffurflen ar-lein PayPlan - cysylltu ar-lein neu gallwch eu ffonio ar **0800 280 2816**

**Shelter Cymru** – mae ganddynt wasanaeth sydd yn darparu gwasanaeth cyfrinachol drwy e-bost a ffôn. Cysylltwch â nhw ar **01248 671005** neu e-bostiwch yfelinheli@sheltercymru.org.uk

**Step Change** - yn cynnig cyngor arbenigol ynghylch dyledion ac ystod eang o ddatrysiadau i ddyled. Does dim ots sut mor fawr neu fach yw'r problem dyled, gallent eich helpu. Cyngor dyledion hyblyg ar gael ar-lein Step Change - cysylltu ar-lein neu dros y ffôn **0800 138 1111**